Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

Datganiad ar Ddefnyddio Gorchuddion Wyneb

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol a moesol ar y Comisiwn Brenhinol i ddarparu amgylchedd gwaith diogel i'w staff, ac rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif.

Fel rhan o'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 rydym wedi ymgymryd ag asesiad o'r risgiau i'n staff ac i'r rheiny y gall ein gwaith effeithio arnynt. Mae'r asesiad hwn wedi dangos bod perygl o hyd y gall Covid-19 gael ei drosglwyddo wrth i bobl ddefnyddio ein hystafell ymchwil.

Mae rhwymedigaeth arnom i gymryd pob mesur ymarferol i ddiogelu ein staff a phobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth. Byddwn yn sicrhau bod awyru naturiol yn ein hystafell ymchwil, a byddwn yn rheoli nifer y defnyddwyr i sicrhau na fydd yr ystafell yn mynd yn rhy brysur. Yn ogystal â'r mesurau hyn fe fydd gofyn i bob aelod staff ac ymwelydd wisgo gorchudd wyneb wrth weithio yn ein hystafell ymchwil.

Byddwn yn parhau i fonitro'r risgiau sydd ynghlwm wrth Covid-19, a byddwn yn adolygu'n rheolaidd ddefnyddioldeb ein mesurau rheoli ac yn eu haddasu os oes modd.

Christopher Catling

Ysgrifennydd (Prif Weithredwr)

11 Mawrth 2022